Ailgydbwyso Iechyd a Gofal

YMATEB CYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU

CYFLWYNIAD

1) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Ein bwriad yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud gwahaniaeth mwy gyda'i gilydd.

2) Er ein bod ni'n gwerthfawrogi'r cyfle i gael ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar Ailgydbwyso Iechyd a Gofal, hoffem nodi nad yw hyd a chymhlethdod yr ymgynghoriad hwn wedi'i adlewyrchu'n ddigonol yn yr amser y mae'r rhanddeiliaid wedi'i gael i ymateb. Ein prif farn yw y dylai ymgynghoriadau fod yn fyrrach ac yn fwy penodol lle bo modd, ac os oes angen ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid ar bwnc cymhleth ac eang iawn, mae angen addasu amserlenni yn unol â hynny. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan ddaw at randdeiliaid mewn sectorau sydd dan bwysau cynyddol, fel iechyd a gofal cymdeithasol. Derbyniom adborth cyson bod yr amserlen ymateb wedi bod yn heriol i fudiadau allu cymryd rhan heb gyfaddawdu ar ddarpariaeth gwasanaethau ac ymrwymiadau eraill.

3) Caiff ymateb CGGC i'r ymgynghoriad hwn ei lywio gan gyfraniadau a wnaed gan randdeiliaid y sector gwirfoddol drwy arolwg ar-lein, a thri gweithdy ymgynghori thematig. Mae'r ymateb yn adlewyrchu safbwyntiau mudiadau seilwaith y sector gwirfoddol, ac, i raddau llai, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau, derbynwyr y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a mudiadau sydd wedi'u rhestru o dan Adran 16 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

4) Y prif fewnwelediadau y gallwn eu rhannu yw bod rhanddeiliaid y sector gwirfoddol (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon o hyn ymlaen fel 'rhanddeiliaid') yn gefnogol ar y cyfan i'r canllawiau diwygiedig, ond mae pryderon yn dal i fod ynghylch sut bydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu. Mae angen sicrhau bod deialog barhaus ac ystyrlon gyda mudiadau'r sector yn digwydd yn gyffredin, o lunio'r polisi hyd at ei weithredu a'i fonitro, er mwyn sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer ailgydbwyso gofal yn cael ei gwireddu.

5) Mae prif themâu ein hymateb yn berthnasol i sawl adran o'r ymgynghoriad, yn hytrach nag yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cwestiynau penodol iawn a ofynnir. I grynhoi, y prif bwyntiau yw:

- Teimlir bod y weledigaeth uchelgeisiol yn afrealistig o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i gyflawni'r effaith a ddymunir.
- Teimlir bod y buddsoddiad arfaethedig yn canolbwyntio gormod ar weinyddiaeth lefel uchel, yn hytrach na gweithredu ar lefelau rhanbarthol a lleol, lle mae'r cyfyngiadau o ran capasiti ar eu gwaethaf.
- Mae gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi'u sefydlu a'u deall[1]. Dylid cyfeirio buddsoddiad tuag at ysgogwyr a galluogwyr sy'n cael eu nodi ar lawr gwlad.
- Rhaid i'r gwaith o'i weithredu gael ei yrru gan egwyddorion cydgynhyrchu, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cymunedau, mudiadau'r trydydd sector, a'r farchnad gofal ehangach. Mae angen diwygio arferion gweithio i adlewyrchu'r bwriad hwn.
- Bydd gallu gweithlu'r sector gwirfoddol i gynnal y gwasanaethau presennol a thyfu i fodloni disgwyliadau partneriaid statudol yn cael ei rwystro gan y diffyg cydraddoldeb o ran cyflog ac amodau'r sector cyhoeddus. Mae disgwyl mai cyfyngedig fydd effaith y fframwaith tâl a dilyniant gwirfoddol, oherwydd ei statws fel 'gwirfoddol'. Mae angen buddsoddiad yn seilwaith a gweithlu'r sector er mwyn cryfhau capasiti cymunedol.
- Er mwyn galluogi aelodaeth effeithiol y trydydd sector yn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylid cysoni'r buddsoddiad yn y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a dylid ailedrych ar y mecanweithiau i gynrychiolwyr cenedlaethol y sector i gysylltu ag ystod eang o randdeiliaid.
- Mae'r effaith a ddisgwylir gan weithlu cyflogedig y trydydd sector a gwirfoddolwyr yn y system iechyd a gofal yn uwch nag erioed. Serch hynny, mae hyn ar adeg pan fo cynaliadwyedd y gweithlu gwirfoddol cyflogedig a di-dâl dan fygythiad, a phan fo cyllidebau'n cael eu torri. Er mwyn cael y budd mwyaf posibl o gynnwys y trydydd sector a gwirfoddolwyr, mae angen buddsoddiad cynaliadwy hirdymor.

6) Mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, **mae CGGC yn gwneud yr argymhellion canlynol**:

- Bod y fframwaith yn cael ei gryfhau i sefydlu arferion da o ran cyllido cynaliadwy hirdymor i'r trydydd sector, sy'n cael ei weinyddu'n unol â Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Awgrymwn fuddsoddiad safonol o dair blynedd o leiaf.
- Bod mudiadau'r sector cyhoeddus yn cysylltu â phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CGGC ar lefel genedlaethol a'r 19 cyngor gwirfoddol sirol lleol) un ai ar lefel leol neu genedlaethol i drafod cyfranogiad strategol mudiadau'r trydydd sector.
- Bod yn rhaid darparu canllawiau clir ar sut gall darparwyr y trydydd sector a'r sector preifat godi pryderon ynghylch mannau lle nad yw'r egwyddorion a'r safonau'n cael eu cynnal.

[1]https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014

- Bod Comisiynwyr yn defnyddio fforymau presennol gwerth cymdeithasol/darparwyr neu fforymau arfaethedig Adran 16 i gael deialog strategol gyda'r trydydd sector.
- Bod rhaglen hyfforddi a datblygu'n cael ei chreu ar gyfer y comisiynwyr a darparwyr i gefnogi'r broses o roi'r fframwaith newydd ar waith. Gellid darparu'r hyfforddiant ar wahân, ond yn ysbryd cydweithio, awgrymwn y byddai cynnal hyfforddiant ar y cyd yn fuddiol i bawb er mwyn cyflawni'r newid diwylliant sydd ei angen. Byddai CGGC yn hapus i weithio gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ddatblygu rhaglen o'r fath.
- Bod swyddogion sy'n gweithio ar ddatblygu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn cwrdd â CGGC a phartneriaid y trydydd sector i nodi ble gall y trydydd sector ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r ymagwedd.
- Bod y fframwaith yn cael ei gryfhau i sefydlu arferion da o ran cyllido cynaliadwy hirdymor yn y trydydd sector, sy'n cael ei wneud yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Awgrymwn fod lleiafswm o dair blynedd yn dod yn safonol yng Nghymru.
- Bod fforymau'n cael eu grymuso i enwi eu hunain, gydag arweiniad clir bod y disgwyliadau a amlinellir yn Adran 16 wedi'u cynnwys yn eu Cylch Gorchwyl.
- Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r fforymau presennol i gyfleu eu disgwyliadau, ond yn grymuso'r fforymau i ddefnyddio egwyddorion cydgynhyrchu i gyflawni'r nodau hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol.
- Bod mwy o amser, adnoddau a hyblygrwydd yn cael eu rhoi ar gyfer gweithgareddau cydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau.
- Bod cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu grymuso i ddod ynghyd gan ddefnyddio partneriaethau a mudiadau seilwaith perthnasol e.e. Llais neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol.
- Bod Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd cyllidebau cyfun i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n unol â'r weledigaeth ac nad yw'r trydydd sector o dan anfantais annheg.
- Bod ymagwedd 'Unwaith i Gymru' tuag at ddatblygu'r Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn cael ei mabwysiadu. Gallai ystadegwyr cymwysedig ar lefel genedlaethol ddatblygu dadansoddiadau data poblogaeth lefel uchel ar gyfer pob rhanbarth. Yna, gallai rhanbarthau ganolbwyntio ar ymgysylltu a chydgynhyrchu gyda phartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ymchwilio i'r anghenion a datblygu ymatebion priodol i'r anghenion hynny.
- Bod y perchnogion data perthnasol, e.e. Gofal Cymdeithasol Cymru, Ystadegau Cymru, Data Cymru a phrifysgolion, yn rhan o bennu beth yw 'da' o ran asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad.

RHAN 8 - COD YMARFER - FFRAMWAITH CENEDLAETHOL AR GYFER GOFAL A CHYMORTH A GOMISIYNIR

EGWYDDORION A SAFONAU CWESTIYNAU 1.1 A 1.2

7) Yn gyffredinol, mae'r sector yn croesawu egwyddorion a safonau ar gyfer comisiynu sydd wedi'u seilio ar werth. Serch hynny, mae pesimistiaeth ynghylch sut bydd y canllawiau'n cael eu dehongli a'u gweithredu ar lefel leol a rhanbarthol.

8) Er mwyn cynnal egwyddorion a safonau'r Fframwaith, mae'n rhaid i'r sector fod yn rhan o ddeialog gynnar a pharhaus er mwyn:

- Sefydlu beth yw 'da' o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, ac yna gweithio am yn ôl i ddatrys pa ymagwedd gomisiynu sy'n gweithio orau.
- Monitro ac adrodd ar sut mae'r egwyddorion a'r safonau'n cael eu cynnal wrth weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol; a
- Lliniaru effeithiau a chanlyniadau anfwriadol i'r sector e.e. ar gyfer darparwyr llai, gallai hyn gynnwys prosesau anghymesur ar gyfer ymgeisio, monitro a gwerthuso.

Rydyn ni'n argymell:

Bod y fframwaith yn cael ei gryfhau i sefydlu arferion da o ran cyllido cynaliadwy hirdymor i'r trydydd sector, sy'n cael ei weinyddu'n unol â Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Awgrymwn fuddsoddiad safonol o dair blynedd o leiaf.

Bod mudiadau'r sector cyhoeddus yn cysylltu â phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CGGC ar lefel genedlaethol a'r 19 cyngor gwirfoddol sirol lleol) un ai ar lefel leol neu genedlaethol i drafod cyfranogiad strategol mudiadau'r trydydd sector.

HERIAU GWEITHREDU

9) Rydyn ni wedi manylu isod rai o'r heriau gweithredu ar gyfer y fframwaith.

Newid diwylliant C 1.7

10) Mae peryglon yn y fframwaith o fethu cyfleoedd da i sefydlogi, gwella a defnyddio arloesedd i gyflawni arfer a newid diwylliant gwirioneddol. Bydd cael y cydbwysedd cywir rhwng ymagwedd genedlaethol, gyda hyblygrwydd i anghenion lleol, yn bwysig. Mae symud oddi wrth broses dendro gystadleuol tuag at ymagweddau mwy cydweithredol sy'n seiliedig ar angen yn cael ei groesawu, ond mae'n hollbwysig buddsoddi mewn meithrin ymddiriedaeth rhwng yr holl randdeiliaid. Nid yw gwasanaethau statudol, yn enwedig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, bob amser yn gallu neilltuo adnoddau i gydweithrediadau newydd, ac argymhellir buddsoddi mewn mentrau strategol i feithrin capasiti[2].

[2] https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2023/01/Y-dyfodol-rydym-yn-ei-greu-gwersi-o-wirfoddoli-mewn-pandemig-yng-Nghymru.pdf

11) Bydd cadw cysondeb rhwng siroedd a rhanbarthau â'r fframwaith a gydnabyddir yn genedlaethol yn anodd. Nid yw'n glir pa bwerau fydd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i sicrhau bod yr egwyddorion a'r safonau'n cael eu cynnal.

Rydyn ni'n argymell:

Bod yn rhaid darparu canllawiau clir ar sut gall darparwyr y trydydd sector a'r sector preifat godi pryderon ynghylch mannau lle nad yw'r egwyddorion a'r safonau'n cael eu cynnal.

Arferion comisiynu C 1.5 a 1.8

12) Mae angen i arferion comisiynu fabwysiadu ymagweddau newydd i sicrhau bod **cydweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau** yn ganolog yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau, gyda thrafodaeth agored am yr hyn sydd wir ei angen a beth ellir ei gyflawni'n ymarferol. Gellir gwneud gwell defnydd o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau er mwyn gweld beth sy'n bwysig a thargedu cyllidebau cyfyngedig at yr hyn sydd wir ei angen ar bobl. Mae mudiadau'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa dda i helpu comisiynwyr i gysylltu â phobl a chymunedau i gefnogi'r egwyddorion a'r safonau sy'n gysylltiedig â'r arfer hwn.

13) Cynigiodd rhanddeiliaid gam cyn-comisiynu, lle caiff datganiad 'beth yw da' ei gydgynhyrchu. Roedd hyn yn seiliedig ar yr angen i neilltuo mwy o amser i gam cynllunio'r cylch comisiynu, gyda'r buddsoddiad amser hwnnw yn canolbwyntio ar arfer cydgynhyrchiol.

14) Os caiff yr angen ei ragamcanu'n gywir, yna bydd hyn yn cael effaith ar y galw am wasanaethau trydydd sector. Byddai cynnal deialog gynnar a pharhaus gyda'r trydydd sector am y capasiti sydd ei angen er mwyn gallu bod yn hyblyg i fodloni'r cynnydd mewn galw hefyd yn cael ei groesawu.

Rydyn ni'n argymell:

Bod Comisiynwyr yn defnyddio fforymau presennol gwerth cymdeithasol/darparwyr neu fforymau arfaethedig Adran 16 i gael deialog strategol gyda'r trydydd sector.

15) Croesewir ymagweddau fel **Comisiynu Cynghrair**, i roi diwedd ar y ffordd y mae mudiadau'r sector yn cael eu gorfodi i gystadlu â'i gilydd. Ni fydd y gwaith o ddatblygu partneriaethau comisiynu cynghrair – meithrin ymddiriedaeth a ffurfio sylfeini cryf yn seiliedig ar werthoedd a rennir – yn digwydd dros nos. Mae'n rhaid darparu adnoddau digonol i gefnogi a galluogi'r math o newid ymddygiad a ragwelir yn y trydydd sector yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Mae'n bosibl nad yw'r cylch comisiynu'n caniatáu digon o amser ar hyn o bryd i wneud hyn yn iawn ac yn effeithiol, er mwyn datblygu cynghreiriau cynaliadwy hirdymor. Dywedodd rhanddeiliaid y dylid neilltuo mwy o amser i gam cynllunio'r cylch comisiynu.

16) Lle caiff cynghreiriau o ddarparwyr eu datblygu, bydd angen i gomisiynwyr fabwysiadu egwyddorion cydgynhyrchu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid dan sylw yn cytuno ar werthoedd cynghreirio, ac yn gweithredu'n unol â nhw. Bydd hefyd angen cefnogaeth gan gomisiynwyr ar gynghreiriau a ffurfir sy'n cynnwys darparwyr o fwy nag un sector, er mwyn helpu pob aelod i ddeall y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng eu sectorau.

17) Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo i raddau helaeth fod gwasanaethau'r trydydd sector mewn sefyllfa dda i gefnogi timau comisiynu'r sector cyhoeddus i ddatblygu arfer comisiynu cynghrair, a bod lle i rannu'r hyn sydd wedi'i ddysgu drwy weithgarwch sy'n cyd-fynd â gwerthoedd comisiynu cynghrair sydd eisoes yn digwydd yn y trydydd sector. Gallai prosiectau cydweithredol a gyllidir gan Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a Chronfa Gwydnwch y Trydydd Sector gynnig enghreifftiau i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol eu defnyddio[3].

18) Roedd rhanddeiliaid hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y fframwaith o **adennill costau llawn**. Serch hynny, rhannodd y rhanddeiliaid bod Awdurdodau Lleol yn hanesyddol yn gofyn i fudiadau'r trydydd sector addasu costau am i lawr, gan ddangos diffyg dealltwriaeth o gost wirioneddol darparu gwasanaethau o ansawdd a chymorth a chyflogau moesegol i staff a gwirfoddolwyr. Mae angen cymorth ar fudiadau'r sector i herio hyn, heb niweidio perthnasau gyda'r timau comisiynu. Gallai cyflwyno Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) hefyd gynnig cyfle i atgyfnerthu arfer comisiynu sy'n canolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na chost.

19) Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith y gallai costau fod yn wahanol rhwng grwpiau cleientiaid oherwydd gofynion ychwanegol ar gyfer ymgysylltu neu anghenion cyflawni gwasanaeth. Er enghraifft, efallai y bydd rhai grwpiau poblogaeth yn bobl hŷn, sydd yn gyffredinol wedi'u hallgáu yn ddigidol yn fwy, ac felly mae angen dulliau amlgyfrwng wrth ddarparu gwasanaethau.

20) Fel rhan o wreiddio'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol, mae angen cyfathrebu dealltwriaeth glir o'r fframwaith newydd, arfer comisiynu, ymagweddau comisiynu, gweithio mewn partneriaeth a gwybodaeth dechnegol, fel egluro adennill costau llawn, i'r holl sectorau.

Rydyn ni'n argymell:

Bod rhaglen hyfforddi a datblygu'n cael ei chreu ar gyfer y comisiynwyr a darparwyr i gefnogi'r broses o roi'r fframwaith newydd ar waith. Gellid darparu hyfforddiant ar wahân ond yn ysbryd cydweithio. rydyn ni'n awgrymu y byddai cynnal hyfforddiant ar y cyd yn fuddiol i bawb er mwyn cyflawni'r newid diwylliant sydd ei angen. Byddai

[3] https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2023/01/Y-dyfodol-rydym-yn-ei-greu-gwersi-o-wirfoddoli-mewn-pandemig-yng-Nghymru.pdf

CGGC yn hapus i weithio gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol i ddatblygu rhaglen o'r fath.

CYNIGION FFRAMWAITH TÂL A DILYNIANT

Safonau ac Egwyddorion C 2.1 a 2.2

21) Mae'r sector yn croesawu gwell cydnabyddiaeth a mwy o gydraddoldeb a chysondeb mewn tâl ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Serch hynny, amlygodd rhanddeiliaid fod categorïau eraill o weithwyr a allai gael eu cynnwys yn y cwmpas e.e. gweithwyr gweithgareddau, cogyddion, garddwyr mewn cartrefi gofal ac ati. Byddai angen canllawiau pellach i sicrhau tegwch o fewn graddfeydd cyflog sefydliadol mewnol.

Gweithredu C2.3

22) Amlinellwyd yr effaith ar fudiadau'r trydydd sector mewn dau faes: y mudiadau hynny sydd â staff sy'n gymwys i gael eu cynnwys yn y fframwaith tâl a dilyniant, a'r rhai sydd yng ngweithlu ehangach y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau ataliol.

Mudiadau sydd â staff sy'n gymwys o dan y fframwaith:

23) Mae arferion gwerthuso cyflogau yn y sector cyhoeddus yn y gorffennol bob amser wedi 'dod â gwerth i lawr' o ran adolygu'r gweithlu. Mae perygl y bydd y gwaith o weithredu'r fframwaith yn cael ei yrru'n fwy gan y gyllideb sydd ar gael, yn hytrach na'r egwyddorion.

24) Mae angen mwy o arweiniad ar sut bydd pobl yn cael eu symud o'r graddfeydd cyflog presennol i'r fframwaith. Bydd rhai aelodau o staff sy'n darparu gwasanaethau arbenigol wedi cael hyfforddiant i allu hunan-adnabod eu bod yn gyfwerth â, er enghraifft, band D, ond eu bod yn darparu gwasanaeth rheng flaen a allai fod wedi'i ddosbarthu, mewn maes anarbenigol, fel band B neu C.

25) Lle mae anghytundeb o ran sut caiff bandiau eu gweithredu, gallai hyn arwain at gynnydd mewn anghydfodau neu gwynion, a gwaethygu problemau cadw staff ymhellach. Yn eironig, mae mudiadau sydd wedi buddsoddi mewn hyfforddiant staff mewn perygl o brofi effaith anghymesur yn hyn o beth.

26) Gan ystyried bod y fframwaith yn wirfoddol, y pwysau sydd eisoes ar ddarparwyr gofal, a'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu fframwaith o'r fath, awgrymwn y dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb i hysbysu'r broses o'i gyflwyno yn ehangach. Byddai hyn er mwyn monitro a gwerthuso'r ymagwedd a ddefnyddir, gan gynnwys yr effaith ar weithlu'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl cyn ei fabwysiadu'n ehangach.

Yr effaith ar weithlu'r trydydd sector ehangach, nad yw yng nghwmpas y fframwaith:

27) Mae cyflogau'r trydydd sector wedi dioddef diffyg parch a chydraddoldeb o gymharu â sectorau eraill, gyda bwlch cyflog cynyddol rhwng gweithlu'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan nad yw cynnydd cyflogau costau byw yn cael eu hymestyn gan gyrff cyhoeddus i fudiadau sy'n cyflawni contractau yn y trydydd sector. Am y rheswm hwn, disgwylir y bydd y fframwaith tâl a dilyniant gwirfoddol hwn yn cael mwy o effaith ar y sector cyhoeddus na'r sector preifat a'r trydydd sector. Byddai gweithredu'r fframwaith hwn heb fynd i'r afael â materion cyflogau byw ehangach yng Nghymru yn dangos methiant i werthfawrogi a mynd i'r afael â chyfraniad gweithwyr mewn gwasanaethau ataliol sydd hefyd yn gwneud cyfraniad i lesiant unigol. O ganlyniad, mae'n bosibl y byddwn ni'n gweld problemau recriwtio a chadw staff presennol yn gwaethygu yng ngweithlu'r trydydd sector.

28) Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd gwerthfawrogi proffesiynau gofal cymdeithasol, ond rydyn ni'n pryderu y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio oddi wrth fuddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol, i chwyddo'r gyllideb angenrheidiol i dalu am gostau'r gwaith o gyflawni'r fframwaith tâl a dilyniant. O ystyried yr angen i fuddsoddi mewn ataliaeth fel ffordd o leihau'r galw ar iechyd a gofal cymdeithasol, gallai mabwysiadu ymagwedd o'r fath wrth gyllido'r fframwaith newydd arwain at ganlyniadau negyddol anfwriadol.

CYNIGION SWYDDFA GENEDLAETHOL DROS OFAL A CHYMORTH

Gweledigaeth a swyddogaethau C 3.2 3.3 3.6

29) Rydyn ni'n croesawu'r weledigaeth am Wasanaeth Gofal Cenedlaethol a amlinellwyd gan Adroddiad y Grŵp Arbenigol[4]. Awgrymwn y dylai'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol weithio gyda'r trydydd sector yn y ffyrdd canlynol:

- Hyrwyddo a chefnogi diffiniad cydgysylltiedig o rôl y trydydd sector
- Hwyluso arfer mwy cyson, effeithlon, a chynaliadwy ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector, a
- Nodi bylchau mewn gwasanaeth yn narpariaeth gofal cymdeithasol drwy ddatrysiadau wedi'u cyd-ddylunio fel rhan o ymateb y trydydd sector.

30) Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r sector fod yn rhan o siapio beth yw ei rôl o fewn y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Rydyn ni'n argymell:

Bod swyddogion sy'n gweithio ar ddatblygu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn cwrdd â CGGC a phartneriaid y trydydd sector i nodi ble gall y trydydd sector ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r ymagwedd.

[4] https://www.llyw.cymru/sefydlu-gwasanaeth-gofal-chymorth-cenedlaethol

Gweithredu C 3.3 3.4 3.4a 3.5

31) Mae rhanddeiliaid yn gweld gwerth mewn mwy o gydlynu ym maes gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol, ond nid yw'r ffordd mae'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn ymgysylltu ac yn cydweithio gyda'r trydydd sector, Gweithrediaeth y GIG, a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i hamlinellu'n ddigonol yn y ddogfen. Roedd gan y rhanddeiliaid y pryderon canlynol:

- Mae bod â Gweithrediaeth y GIG a Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ar wahân yn ymddangos yn groes i'r nod o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae perygl o atgyfnerthu seilos a gwrthwneud y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran integreiddio hyd yma.
- Gallai'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i sefydlu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol dynnu buddsoddiad oddi wrth y rheng flaen, lle mae ei angen fwyaf.
- Roedd y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal yn 2021 yn awgrymu bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod yn endidau cyfreithiol, fel bod modd iddynt gael mwy o bŵer i wneud penderfyniadau a chyfrifoldeb ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Ar y pryd, gwrthododd Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd y cynnig hwn, ac felly ni chafodd ei symud ymlaen. Roedd yn gred gyffredin ymhlith y rhanddeiliaid yr ymgynghoron ni â nhw y gallai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, fel endidau cyfreithiol ar wahân, fod wedi gwneud llawer o'r hyn sy'n cael ei gynnig fel rôl y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.
- Un pryder nodedig i'r sector yw'r posibilrwydd y gallai cyflwyno haen arall o weinyddiaeth sydd wedi'i dylunio i ryngweithio â Gweithrediaeth y GIG a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol arwain at ddyblygu, dryswch a rhwystrau ychwanegol, ac arafu prosesau a gweithdrefnau os na fydd rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir.
- Mae aelodaeth y grŵp llywio wedi'i chyfyngu i gyrff cyfryngol a seilwaith. Nid yw defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr na'r sector iechyd a gofal ehangach yn rhan ohono.
- Mae angen eglurhad pellach hefyd ynghylch a fydd taliadau uniongyrchol a'r farchnad cynorthwywyr personol yn rhan o hyn, o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

RHAN 2 - COD YMARFER - (SWYDDOGAETHAU CYFFREDINOL)

Dyletswydd i hyrwyddo C 4.2

32) Yn gyffredinol, mae'r trydydd sector yn cefnogi mwy o eglurder a ffocws ar y ddyletswydd i hyrwyddo a chanllawiau mwy penodol. Serch hynny, o ganlyniad i gryfhau'r ddyletswydd hon, mae'n debygol o arwain at alw uwch ar y sector. Mae diffyg capasiti ac adnoddau yn y sector i allu bod yn hyblyg i ateb galw cynyddol am ei wasanaethau. Er mwyn galluogi'r sector i fod â sylfaen gryfach:

Rydyn ni'n argymell:

Bod y fframwaith yn cael ei gryfhau i sefydlu arferion da o ran cyllido cynaliadwy hirdymor yn y trydydd sector, sy'n cael ei wneud yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Awgrymwn fod lleiafswm o dair blynedd yn dod yn safonol yng Nghymru.

Adran 16 Fforymau C 4.1

33) Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn teimlo nad oedd yr enw Adran 16 yn ystyrlon i bobl nad ydynt yn gyfarwydd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gallai hyn eithrio pobl a mudiadau, yn enwedig darparwyr llai a'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau amrywiol, ac sydd o dan arweiniad defnyddwyr gwasanaethau. Fel cynnig amgen, awgrymodd y rhanddeiliaid y gallai'r term Adran 16 gael ei ddefnyddio fel is-bennawd i helpu i ffocysu'r Fforymau ar nodau'r Ddeddf.

Rydyn ni'n argymell:

Bod y fforymau'n cael eu grymuso i enwi eu hunain, gydag arweiniad clir bod y disgwyliadau a amlinellir yn Adran 16 wedi'u cynnwys yn eu Cylch Gorchwyl.

34) Yn ogystal, mae angen mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran eu disgwyliadau gan y Fforymau. Dylai'r ystyriaethau gynnwys:

- Dan arweiniad y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector
- Argaeledd buddsoddiad i ddatblygu'r fforymau
- Dylai fforymau ganolbwyntio ar weithio traws-sectorol
- Mae sectorau preifat/annibynnol hefyd yn rhan o'r farchnad, ac ni ddylid eu hynysu oddi wrth y fforymau
- Creu lle i syniadau arloesol ffynnu

Rydyn ni'n argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r fforymau presennol i gyfleu eu disgwyliadau, ond yn grymuso'r fforymau i ddefnyddio egwyddorion cydgynhyrchu i gyflawni'r nodau hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol.

Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau C 4.3

35) Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y ddyletswydd i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau wedi cael ei chyflawni'n rhannol yn yr ystyr bod cyfleoedd i gymryd rhan. Serch hynny, yr hyn sydd fwyaf cyffredin yw bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan bartneriaid statudol, ac yna mae ymgynghori'n digwydd. Nid cydgynhyrchu yw hyn. Mae cydgynhyrchu'n digwydd yn bennaf lle mae pobl yn gyrru'r arfer, yn hytrach na'i fod yn rhan o fusnes fel arfer.

36) Mae fforymau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau'n bodoli mewn rhai rhanbarthau, ond nid yw'r rhain yn gyson nac yn arferol. Ar y llaw arall, efallai nad fforymau yw'r ateb ar gyfer pob ymgysylltiad â defnyddwyr

gwasanaethau. Mae angen i'r ffordd mae rhanbarthau'n ymgysylltu ac yn cydgynhyrchu gael ei gyrru gan sut hoffai defnyddwyr gwasanaethau gymryd rhan.

37) Un maes gwaith sylweddol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw egluro neu symleiddio sut gallai'r cyhoedd ddisgwyl bod yn rhan o'u gwaith.

Rydyn ni'n argymell:

Bod mwy o amser, adnoddau a hyblygrwydd yn cael eu rhoi ar gyfer gweithgareddau cydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau.

RHAN 9 - CANLLAWIAU STATUDOL (TREFNIADAU PARTNERIAETH) C5.1 5.2 5.3

Aelodaeth a chymorth

38) Mae'r term 'trydydd sector' yn disgrifio ystod amrywiol o fudiadau sy'n cael eu gyrru gan werthoedd ac sy'n rhannu cyfres o werthoedd a nodweddion. Mae'r sector yn gweithredu ar sail nid er elw, ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth. Mae mudiadau'n cael eu sefydlu'n wirfoddol gan unigolion sydd wedi'u cymell gan ddibenion cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol. Er bod elusennau cofrestredig yn gweithredu o fewn y trydydd sector, mae sawl math arall o fudiad, gan gynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, mudiadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cydfuddiannol. Amcangyfrifir bod dros 41,000 o fudiadau trydydd sector yng Nghymru, gyda dros 12,000 ohonynt yn cyfrannu at ddarparu iechyd a gofal. (Gweler yr Atodiad.) Mae 2,700 o fannau cyflogaeth yn y trydydd sector ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cyflogi gweithlu cyflogedig o bron i 59,000, gyda llawer ohonynt yn gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr. Croesewir cryfhau llais y trydydd sector yn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond mae'n ofyniad enfawr i Gynghorau Gwirfoddol Sirol gynrychioli'r miloedd o fudiadau a'r gweithgarwch yn eu hardal. At hynny, roedd y rhanddeiliaid yn cwestiynu a fyddai modd i fudiadau cenedlaethol ychwanegu gwerth ystyrlon o safbwyntiau eang y trydydd sector, gan fod cynrychiolwyr yn dueddol o ddod o 'is-sectorau' penodol e.e. plant, anableddau dysgu, iechyd meddwl ac ati, ac nid oes digon o gapasiti ganddynt i ymgysylltu â chynulleidfa eang o randdeiliaid.

39) Er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CGGC i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o fudiadau sy'n derbyn y Grant ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a mudiadau arbenigol sy'n gweithio ar y modelau cenedlaethol o ofal, i ddarparu grŵp cyfeirio cenedlaethol y trydydd sector i gydweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

40) Tynnodd mudiadau'r trydydd sector sylw at yr angen am fwy o dryloywder a mwy o wybodaeth gyhoeddus am y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er enghraifft cyhoeddi aelodaeth a gwybodaeth am ffyrdd o ymgysylltu. Mewn perthynas â chynrychiolwyr gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau, yn hytrach na'u huwchsgilio i ffitio i mewn i'r system bresennol, dylai'r system ei hun fod yn fwy hygyrch. Ni ddylai prif rôl cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau fod yn dechnegol. Dylai ymwneud â gwreiddio gwerthoedd a ffyrdd o weithio.

41) Amlygodd rhanddeiliaid hefyd y dylai'r canllawiau ar gyfer cefnogi cynrychiolwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael eu hymestyn i fforymau a byrddau rhaglen fel rhan o strwythur llywodraethu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gwnaed awgrymiadau ar gyfer gwella'r cymorth y mae cynrychiolwyr y trydydd sector, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei gael:

- Yr oedran darllen cyfartalog yng Nghymru yw naw oed. Dylid ystyried hyn wrth ddrafftio dogfennau a phapurau[5].
- Dylai papurau gael eu dosbarthu o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod mewn egwyddor, ond mae'n gyffredin bod rhai ar goll neu'n araf yn cyrraedd. Dylid ystyried cryfhau'r polisi ynghylch dosbarthu papurau, ac os nad ydynt yn barod erbyn y dyddiad dosbarthu, yna ni ddylent gael eu cynnwys - neu dylid cytuno ar feini prawf ar gyfer papurau brys gyda chynrychiolwyr.
- Mwy o empathi a dealltwriaeth i gynrychiolwyr. Mae'n anodd i bobl ymdopi â chymaint o wybodaeth, gan mai dim ond bob ychydig fisoedd maen nhw'n ymgysylltu â'r gofod hwn.
- Mae cymorth ymarferol ac offer ar gyfer cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn hanfodol – dyfeisiau, cyfrif e-bost cynrychiolwyr, hyfforddiant, treuliau, seibiant ac ati.
- Mae angen trin amser gwirfoddol yn gyfartal. Dylid talu costau teithio a chynhaliaeth ymlaen llaw. A ellid rhoi gwobr a chydnabyddiaeth i ddigolledu pobl am roi o'u hamser? Gall y trydydd sector gefnogi'r gwaith o archwilio hyn drwy ymgysylltu â gwirfoddolwyr.
- Pwy sy'n arwain ar y cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau? Mae rhai swyddi presennol yn cael eu cynnal o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol, ond mae eraill yn cael eu cynnal yn nhîm rhanbarthol y rhaglen. Dylai cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r trydydd sector fod yn cyd-ddylunio'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw ym mhob ardal.
- Mae cefnogaeth i'r broses recriwtio cynrychiolwyr gael ei harwain gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fel rhan o'r fforymau neu'r paneli dinasyddion presennol.
- Ar ôl eu recriwtio, nodwyd y dylai cynrychiolwyr allu dod at ei gilydd i rannu profiadau ledled Cymru. Gallent ddysgu gan ardaloedd eraill, a gallai fod yn ffordd o ledaenu syniadau arloesol ar draws ffiniau. Ar hyn o bryd mae

[5] https://www.ldw.org.uk/er-resource/clear-and-easy-handbook.

Gofalwyr Cymru yn cynnal grŵp o gynrychiolwyr gofalwyr ledled Cymru, a gellid defnyddio hwn fel enghraifft i adeiladu ar ei sail.

Rydyn ni'n argymell:

Bod cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu grymuso i ddod ynghyd gan ddefnyddio partneriaethau a mudiadau seilwaith perthnasol e.e. Llais neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol.

RÔL LLAIS

42) Mae mudiadau'r trydydd sector yn croesawu sefydlu Llais i gryfhau lleisiau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yng Nghymru. Mae trafodaeth eisoes wedi digwydd gyda Llais am sut gallwn gydweithio er budd pobl a chymunedau.

43) Nid yw rôl Llais yn ddigon eglur mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth. Er enghraifft, ai rôl craffu fydd ganddo, neu a fydd yn ymwneud mwy â chefnogi gweithgarwch ymgysylltu, cyfranogiad a chydgynhyrchu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol? Isod mae cwestiynau pellach gan y sector am yr wybodaeth sydd ei hangen i ddeall rôl Llais mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol:

- Beth fydd rhan Llais yn y gwaith o gefnogi cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr?
- A fydd modd iddo ddarparu gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant i gyflawni ei rôl yn effeithiol?
- Sut bydd Llais yn rhyngweithio â chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau?
- A ddylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael eu gwahodd i fforwm dinasyddion wedi'i gynnull gan Llais? I'r gwrthwyneb, a ddylai dinasyddion gael eu gwahodd i ofod ar gyfer gweithwyr proffesiynol?

44) Dylid nodi hefyd na ddylai presenoldeb Llais yn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol olygu bod eu dyletswydd i gyd-ddylunio, cydgynhyrchu a chydwerthuso wedi'i gyflawni.

CYLLIDEBAU CYFUN

45) Croesewir cyllidebau cyfun mewn egwyddor er mwyn galluogi mwy o effeithlonrwydd a symlrwydd wrth fodloni anghenion unigolion a chymunedau. Mantais cyllidebau cyfun, o safbwynt y trydydd sector, fyddai bod partneriaid statudol mewn partneriaeth â mudiadau'r trydydd sector wedi cytuno a chysoni blaenoriaethau comisiynu/cyllido. Byddai'r trosolwg gwell hwn dros wasanaethau yn golygu y gellid lliniaru canlyniadau anfwriadol datgomisiynu gwasanaethau cyn i brosiectau ddod i ben.

46) Roedd mudiadau'r trydydd sector yn croesawu yn arbennig cynnwys gofal iechyd parhaus yn y cynigion ar gyfer cyllidebau cyfun. Byddai hyn yn golygu na fydd pobl a theuluoedd yn cael eu dal mewn anghytuno ariannol rhwng timau comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol mwyach.

Rydyn ni'n argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd cyllidebau cyfun i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n unol â'r weledigaeth ac nad yw'r trydydd sector o dan anfantais annheg.

47) Er nad oes gofyniad ar fudiadau trydydd sector i gyfrannu at gyllidebau cyfun, nid yw hyn yn golygu nad ydyn nhw'n gwneud hynny. Er enghraifft, gellid amcangyfrif amser gwirfoddolwyr fel cyfraniad mewn nwyddau, a dylid archwilio hyn mewn fforymau rhanbarthol.

ADRODD

Rydyn ni'n argymell:

Bod ymagwedd 'Unwaith i Gymru' yn cael ei mabwysiadu tuag at ddatblygu'r Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth. Gallai ystadegwyr cymwysedig ar lefel genedlaethol ddatblygu dadansoddiadau data poblogaeth lefel uchel ar gyfer pob rhanbarth. Yna, gallai rhanbarthau ganolbwyntio ar ymgysylltu a chydgynhyrchu gyda phartneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ymchwilio i'r anghenion a datblygu ymatebion priodol i'r anghenion hynny.

Bod y perchnogion data perthnasol e.e. Gofal Cymdeithasol Cymru, Ystadegau Cymru, Data Cymru a phrifysgolion, yn rhan o bennu beth yw 'da' o ran asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad.

48) Roedd cytundeb eang bod angen i ofynion casglu data sydd ar wasanaethau statudol gael eu safoni a'u hatgyfnerthu i fod o fudd i asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad. Un ai nid yw gwybodaeth sylfaenol yn bodoli, neu nid yw ar gael i'r cyhoedd. Caiff data hefyd ei ddal mewn gwahanol fformatau o fewn pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd. Mae diffyg syfrdanol yn yr wybodaeth sydd ar gael, hyd yn oed wrth ddefnyddio ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae mudiadau'r trydydd sector yn cael eu gofyn yn aml i ddarparu data am wasanaethau trydydd sector, er bod llawer o'r wybodaeth eisoes ym meddiant tîm comisiynu partner statudol. Dylid gwneud defnydd gwell o ddata nad yw'n bersonol, a'i rannu ar draws partneriaid i fod yn sail i sgyrsiau am anghenion y boblogaeth a darpariaeth gwasanaethau.

49) Mae mudiadau'r sector yn hapus i gyfrannu at asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad, ond mae angen eglurder ynghylch beth fydd ein cyfrifoldeb o gymharu â chyrff cyhoeddus. Mae gan dimau comisiynu rôl allweddol i'w chwarae wrth ddod â'r wybodaeth ynghyd. Gall y sector gefnogi drwy ddarparu gwybodaeth am fylchau, ond ni

ellid disgwyl iddynt fod â'r adnoddau i reoli, monitro a chyfrannu data cyflawn.

TRAFODAETH BELLACH

50) Byddai CGGC yn hapus i gwrdd â Gweinidogion neu swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y materion uchod ymhellach ar gais.

Johanna Davies, Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol CGGC

Jdavies@wcva.cymru

Gorffennaf 2023

WCVA
CGGC



Yng Nghymru, mae'r trydydd sector yn cynnig cymorth ehangach i'r maes iechyd a gofal statudol yn bennaf, a allai gynnwys cyfrannu'n uniongyrchol at ddarpariaeth.

Gweithlu iechyd a gofal trydydd sector Cymru?[2]

2,700 o leoedd cyflogaeth

58,924 o gyflogeion

Yr hyn nad ydyn ni'n ei wybod am y mudiadau hyn:

- **Beth yw trosiant blynyddol y 12,000 o fudiadau hyn?** Yr unig ddata dibynadwy sydd gennym ni yw ar gyfer y 17% sy'n elusennau a chyda throsiant cyfunol o £2.2 biliwn y flwyddyn.[3]
- **Faint o gontractau sydd gan y trydydd sector â phartneriaid statudol a faint yw eu gwerth?** Ni wyddom hyn, ond gwyddom fod y rhan fwyaf o incwm y trydydd sector yn deillio o ffynonellau anstatudol.
- **Beth yw effaith mudiadau dwy genedl ar ddarpariaeth iechyd a gofal Cymru?** Dim ond ar lefel mudiad y mae angen i fudiadau dwy genedl (elusennau sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr yn bennaf) adrodd. Golyga hyn ei fod yn amhosibl cyfrifo'r effaith y maen nhw'n ei chael dros Gymru, a fyddai'n sylweddol gan ystyried graddfa a darpariaeth Gymreig amlwg rhai o'r mudiadau hyn.

[2] Porth Data'r Trydydd Sector, Chwefror 2023
[3] Cofrestr Gyhoeddus y Comisiwn Elusennau, Rhagfyr 2022

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.wcva.cymru

ATODIAD

WCVA
CGGC

Trydydd sector Cymru ac iechyd a gofal. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod. Yr hyn nad ydyn ni'n ei wybod.

Mae'r term trydydd sector yn disgrifio ystod amrywiol o fudiadau a ymrir gan werth sy'n rhannu'r un gwerthoedd a nodweddion. Mae'r trydydd sector yn gweithredu ar sail nid-er-elw ac yn annibynnol o'r llywodraeth. Caiff mudiadau eu sefydlu'n wirfoddol gan unigolion a ysgogir gan ddibenion cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol.

Er bod elusennau cofrestredig yn gweithredu o fewn y trydydd sector, mae mathau di-ri o fudiadau eraill, gan gynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, mudiadau sy'n seiliedig ar ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedaethau datblygu a chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

MAE DROS 12,000[1]

o fudiadau trydydd sector yng Nghymru yn cyfrannu at ddarpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru

Gall mudiadau:

- Ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol drwy drefniadau comisiynu gyda chyrff cyhoeddus, ee gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwella darpariaeth y sector cyhoeddus, ee cyfeillio, cymorth ar wardiau, gwybodaeth a chyngor, cefnogaeth i gymheiriaid, presgripsiynu cymdeithasol
- Cyflwyno llesiant cymdeithasol ehangach, e.e. hybu iechyd ac atal salwch
- Adeiladu capasiti'r sector, ee addysg a hyfforddiant, ymchwil, cyllid, rhwydweithiau

Gallai mudiadau fod yn rhai sy'n:

- Canolbwyntio ar gyflwr, ee Alzheimers, canser, HIV
- Grwpiau datblygu cymunedol sy'n canolbwyntio ar le, fforymau llais dinasyddion
- Canolbwyntio ar nodweddion, ee anabledd, gofalwyr
- Canolbwyntio ar wasanaeth, ee tai, cyngor, iechyd meddwl

[1]Porth Data'r Trydydd Sector, Chwefror 2023

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

WCVA
CGGC

Mae

60,431

o bobl yn gwirfoddoli i elusennau iechyd a gofal cofrestredig[4] sy'n cyfri am ddim ond 17% o'r mudiadau trydydd sector yng Nghymru sy'n cefnogi iechyd a gofal[5]

Mae

17%

o wirfoddolwyr yn rhan o'r sector[6]

Mae

938,000

o bobl yn gwirfoddoli ar draws pob sector yng Nghymru bob blwyddyn[7]

[4]Cofrestr Gyhoeddus y Comisiwn Elusennau, Rhagfyr 2022
[5]Porth Data'r Trydydd Sector, Chwefror 2023
[6]Almanac Cymdeithas Sifil y DU NCVO, Hydref 2022
[7]Porth Data'r Trydydd Sector, Chwefror 2023

Mae'r gwirfoddolwyr yn cynnwys:

- Cyfeillion Dementia
- Eiriolwyr
- Cleifion arbenigol
- Cyfeillachwyr
- Gyrwyr cymunedol
- Trefnydd cymdeithasol
- Hybu iechyd
- Ymddiriedolwyr
- Rolau rheoli a gweinyddol
- Cydlynwyr gweithgareddau
- Ymatebwyr cyntaf
- Swyddogion cymorth cyntaf mewn digwyddiadau
- Stiwardiaid canolfannau brechu
- Cludo presgripsiynau
- Cymorth gan gymheiriaid
- Codi arian
- Llinell gwnsela/gynghori
- Cymorth i gael mynediad digidol at wasanaethau iechyd a gofal

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.wcva.cymru

WCVA
CGGC

Mae

584,134[8]

o oedolion yng Nghymru yn ofalwyr

DI-DÂL

(pobl nad ydynt fel arfer yn cael eu hystyried yn rhan o'r trydydd sector)

Mae hyn yn cyfrannu

£8.1

BILIWN[9]

at economi Cymru bob blwyddyn

Yr hyn nad ydyn ni'n ei wybod am wirfoddolwyr:

- **Faint o bobl sy'n gwirfoddoli i gefnogi darpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru i hyd?** Mae'r data cadarn sydd ar gael dim ond yn ymdrin ag elusennau cofrestredig, sy'n golygu na allwn ni gyfrifo'r gwirfoddoli o fewn y trydydd sector ehangach a'r sector statudol ar lefel gyfunol.

- **Beth yw ystod lawn y sgiliau a'r profiadau sydd ar gael i ddarpariaeth iechyd a gofal statudol o ganlyniad i wirfoddoli?** Mae rolau helaeth gan wirfoddolwyr, ac nid oes unrhyw waith mapio canolog o rolau a sgiliau yn bodoli.

- **Beth yw gwerth llawn gwirfoddoli mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol?** Mae gwerth ychwanegol i wirfoddoli y tu hwnt i'r gweithgareddau uniongyrchol a gyflawnir gan wirfoddolwyr. Mae hyn yn cynnwys datblygiad, llesiant cymdeithasol a chydlyniant. Hyd yn oed pan fydd gwerth uniongyrchol gwirfoddoli yn cael ei gyfrifo, caiff y buddion cymdeithasol ehangach hyn eu hanghofio'n aml.

Yr hyn nad ydyn ni'n ei wybod am ofalwyr di-dâl:

- **Beth yw'r gwerth i ddarpariaeth iechyd a gofal?** Mae'r £8.1 biliwn a nodwyd yn adlewyrchu'r cyfraniad economaidd (a gyfrifwyd gan fetricsau ehangach sydd wedi'u halinio â dangosyddion cynnyrch domestig gros (GDP)) gan adlewyrchu cyfanswm budd economaidd gofalwyr di-dâl. Ond, ni wyddom yn gwmws faint o hwn y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddarpariaeth iechyd a gofal, neu i fetricsau eraill, e.e. tai, addysg.

- **Beth yw gwerth y gofal anffurfiol a roddir gan ffrindiau a chymdogion i'r ddarpariaeth iechyd a gofal?** Gofalwyr di-dâl yw unrhyw un sy'n rhoi gofal di-dâl a gynlluniwyd i ffrind neu aelod o'r teulu nad yw, oherwydd salwch, anabledd neu broblem iechyd meddwl neu gaethiwed, yn gallu ymdopi heb ei gymorth. Ni chofnodir effaith y cymorth a dderbynnir gan gylch ehangach o ffrindiau a chymdogion.

[8]Carers UK, Erthygl Wythnos Ofalwyr, Mehefin 2022
[9]Llywodraeth Cymru, Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, Mawrth 2021

Rhoddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government